**COMISIWN Y CYMUNEDAU EWROPEAIDD: CYFATHREBIAD GAN Y COMISIWN: ADRODDIAD CYNTAF AR GYNNYDD CYDLYNIANT ECONOMAIDD A CHYMDEITHASOL**

## Cyflwyniad

1. Diben y papur hwn yw rhoi’r newyddion diweddaraf i aelodau ar faterion yn ymwneud â chydlyniant economaidd a chymdeithasol. Mae’n rhoi trosolwg o’r adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar sef, "yr adroddiad cyntaf ar gynnydd cydlyniant economaidd a chymdeithasol ("yr adroddiad Cynnydd") a’r newydd diweddaraf ar ymateb y Prif Weinidog i’r Ail Adroddiad ar Gydlyniant Economaidd a Chymdeithasol ("yr Ail adroddiad").

2. Mewn ymateb i bryderon a fynegwyd gan aelod-wladwriaethau a gwledydd sy’n ceisio aelodaeth ynghylch yr effaith a gaiff ehangu ar gydlyniant economaidd a chymdeithasol, dywedodd y Comisiwn yn ystod cyfarfod o Gyngor yr Undeb Ewropeaidd ar 11 Mehefin 2001, y byddai:

- yn darparu adroddiadau cynnydd rheolaidd i’r Cyngor; ac
- yn paratoi’r 3ydd Adroddiad ar Gydlyniant gyda’r bwriad o lunio’r cynigion sydd eu hangen i fynd â’r polisïau ar gydlyniant yn eu blaen wedi 2006.

3. Mabwysiadwyd yr Adroddiad Cynnydd Cyntaf gan Goleg y Comisiynwyr ar 30 Ionawr 2002.

## Argymhellion

4. Mae’r papur hwn yn amlygu’r themâu allweddol yn yr adroddiad cynnydd cyfredol i’w drafod gan y pwyllgor Materion Ewropeaidd. Gwahoddir aelodau o’r pwyllgor i nodi’r adroddiad ac ymateb y Prif Weinidog i’r Comisiynydd Barnier ar yr Ail Adroddiad ar Gydlyniant.

## Cefndir

### Ymateb y Prif Weinidog i’r Ail Adroddiad ar Gydlyniant

5. Mae’r Trydydd Adroddiad ar Gydlyniant i’w gyhoeddi ddechrau 2004 a chynhelir trafodaethau ar gylch nesaf y cronfeydd strwythurol drwy gydol 2005-06. Fodd bynnag, tua diwedd 2001, cyhoeddodd y Comisiwn ei fwriad i gyhoeddi adroddiad interim neu adroddiad cynnydd arall ddechrau 2002.

6. Yn ystod cyfarfod gyda Michel Barnier, Y Comisiynydd Polisi Rhanbarthol ar 5 Rhagfyr 2001, hysbyswyd y Prif Weinidog ac aelodau o'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd y dylai unrhyw ymateb i'r Ail adroddiad gyrraedd y Comisiynydd cyn y Nadolig os oedd i'w gymryd i ystyriaeth.

7. O ystyried y cais annisgwyl hwn gan GC-Polisi Rhanbarthol am ymateb cynnar, penderfynodd y Prif Weinidog y dylai ysgrifennu ar ei union at y Comisiynydd Barnier, yn hytrach na cholli'r cyfle i gynnig persbectif o Gymru. Anfonwyd llythyr ar 17 Rhagfyr (amgaeir copi).

8. Mae'r llythyr yn cynnig barn ragarweiniol ac mae'n nodi'r materion allweddol sydd o ddiddordeb i Gymru. Mae'n ei gwneud yn glir bod Llywodraeth y Cynulliad yn dymuno cyfrannu at y broses o ddatblygu syniadau ym Mrwsel ac yn arbennig ar lefel y DU, ond y bydd safbwynt Llywodraeth y Cynulliad yn datblygu dros gyfnod o amser, ac y bydd wedi'i seilio ar yr holl dystiolaeth sydd ar gael o werth rhaglenni'r cronfeydd strwythurol i Gymru. Ystyriwyd y llythyr gan y Gweithgor Ehangu yn ystod ei gyfarfod ym mis Ionawr.

**Adroddiadau Cynnydd a'r Trydydd Adroddiad ar Gydlyniant**

9. Mae'r adroddiad yn cyflawni 2 swyddogaeth: mae'n diweddaru'r dadansoddiad economaidd a gyflwynwyd y llynedd yn yr Ail Adroddiad ar Gydlyniant Economaidd a Chymdeithasol, sy'n seiliedig ar UE o 25 o aelodau (ar ôl cyfarfod Cyngor Laeken ym mis Rhagfyr, cafodd Romania a Bwlgaria eu heithrio o'r dadansoddiad); ac mae'n crynhoi'r ymatebion i'r Ail Adroddiad ar Gydlyniant. Gellir cael copïau drwy wefan DG Regio http:inforegio.cec.eu.int.

10. Nid oes gan y Comisiwn farn yn yr adroddiad ynghylch a ddylai cyllideb y cronfeydd strwythurol ar ôl 2006 fod yn fwy neu'n llai na 0.45% o Gynnyrch Mewnwladol Crynswth (GDP) yr UE (dyma'r ganran dybiedig ar gyfer 2006, yn ôl y pecyn ariannol y cytunwyd arno ym Merlin). Mae'r adroddiad yn nodi, fodd bynnag, y bydd yr aelod-wladwriaethau'n parhau i gyd-ariannu'r gyllideb, a bod y Comisiwn yn dra ymwybodol o allu'r aelod-wladwriaethau i wneud eu cyfraniad llawn pe byddai'r gyllideb yn codi'n uwch na 0.45%. Amlygir gallu'r aelod-wladwriaethau i "amsugno" cronfeydd strwythurol, yn weinyddol ac yn ariannol, fel egwyddor allweddol. Ar hyn o bryd, ni chaniateir i gyfraniadau o gronfeydd strwythurol neu gydlyniant i aelod-wladwriaeth fod yn fwy na 4% o'i GDP cenedlaethol. Mae'r adroddiad cynnydd yn honni na chafwyd gwrthwynebiad cryf i'r terfyn hwn mewn ymatebion i'r Ail Adroddiad, er i'r Ail Adroddiad awgrymu y gellid mynd dros y terfyn hwn ar gyfer prosiectau mawr sydd o bwys arbennig i'r UE gyfan.

11. Amgaeir dadansoddiad mwy manwl yn Atodiad A y papur hwn.

12. Cyhoeddwyd y bydd y Comisiwn yn cyhoeddi Adroddiad Cynnydd yn Ionawr 2003.

**Camau nesaf**

13. Yn ystod lansiad yr Adroddiad Cynnydd Cyntaf ym Mrwsel ar 30 Ionawr, y bu swyddog o'r Cynulliad yn bresennol ynddo, bu'r Comisiynydd Barnier:

- yn mynegi ei werthfawrogiad i'r rheini a ymatebodd i'r Ail adroddiad ar Gydlyniant gan ychwanegu y byddai'n croesawu rhagor o sylwadau dros y misoedd i ddod.

- yn dweud y byddai'r Comisiwn yn darparu Adroddiad Cynnydd arall yn Ionawr 2003.

- yn dweud y bydd cynigion pendant ar gyfer polisi ar gydlyniant yn y dyfodol yn y Trydydd Adroddiad ar Gydlyniant. Bydd yn helpu i lywio penderfyniadau'r Comisiwn ar bolisi rhanbarthol a'r pecyn ariannol ar gyfer 2007 a thu hwnt.

- Nododd Barnier hefyd fod y Comisiwn yn bwriadu datblygu ei syniadau ynghylch symleiddio rhaglenni'r cronfeydd strwythurol, gan gynnwys ffyrdd o sicrhau mwy o ddatganoli.

14. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi nad yw'r Comisiwn wedi lansio unrhyw ymgynghori swyddogol ar yr adroddiad cynnydd, ond bod y Cynulliad yn aros i dderbyn manylion y seminarau sydd i'w cynnal ym Mrwsel yn ddiweddarach eleni. Disgwylir i dair seminar gael eu cynnal ym Mrwsel yn 2002: un ar ddiwedd Mai a fydd yn ymdrin â themâu tiriogaethol; un yn fuan wedi hynny yn ymdrin â themâu llorweddol; a thrydedd yn ail hanner y flwyddyn a fydd yn ymdrin â gweithredu a rheoli rhaglenni.